# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 5

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

## PENNOD 5

DARPARIAETH BELLACH MEWN PERTHYNAS Â CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG A RHEOLIADAU CYD-BWYLLGOR

*Swyddogaethau cyd-bwyllgorau corfforedig a phrif gynghorau a swyddogaethau sy'n ymwneud â hwy*

### 85 Gofyniad i ddarparu gwybodaeth etc.

Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor, awdurdod Parc Cenedlaethol neu gyd-bwyllgor corfforedig i ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol—

(a) at ddibenion ystyried a ddylid gwneud rheoliadau o dan y Rhan hon;

(b) at ddibenion rhoi effaith i'r rheoliadau hynny;

(c) fel arall mewn cysylltiad â'r rheoliadau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 85 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(e)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/01/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 85.